*This document is available in English* **Rhif ar yr agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub** |
| Dyddiad | **19/03/18** |
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol** |
| Pwnc | **Cynllun Gwella a Llesiant drafft 2018-19** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno'r Cynllun Gwella a Llesiant drafft ar gyfer 2018-19 er mwyn i'r aelodau ei gymeradwyo.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno Cynllun Gwella a Llesiant drafft ar gyfer 2018-19 (atodiad 1) i'w gyhoeddi erbyn 31 Mawrth 2018.

**ARGYMHELLIAD**

3 Gofynnir i'r Aelodau gymeradwyo drafft terfynol y Cynllun Gwella a Llesiant 2018-19 a'r Datganiad, i'w cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod cyn diwedd Mawrth 2018.

**SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

4 Nid yw'r Aelodau wedi ystyried yr adroddiad hwn o'r blaen.

**CEFNDIR**

5 Mae'n ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub (ATAau) yng Nghymru gyhoeddi amcanion gwella yn unol â Mesur Llywodraeth Leol 2009 cyn gynted ag y bo'n rhesymol ac ymarferol ar ôl 31 Rhagfyr cyn y flwyddyn ariannol y mae'r Cynllun yn ymwneud â hi.

6 Rhaid i'r ATAau hefyd gyhoeddi amcanion llesiant yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Roedd yn ofynnol i ATAau osod a chyhoeddi eu hamcanion llesiant cyntaf erbyn 31 Mawrth 2017, a rhaid iddynt barhau i'w hadolygu, eu diwygio a'u hail-gyhoeddi wedyn ar adegau sy'n briodol yn eu barn nhw.

7 Wrth gyhoeddi eu hamcanion llesiant tymor hir, rhaid i'r ATAau hefyd gyhoeddi datganiad yn esbonio sut byddai cyflawni'r amcanion yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol a pham maen nhw'n ystyried eu bod wedi gosod amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Rhaid i'r datganiad nodi hefyd pa gamau mwy uniongyrchol y maen nhw'n bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny yn unol â'r egwyddor a'r amserlenni a ragwelir ar gyfer cyflawni'r amcanion.

8 Yn 2017-18, yn unol â'r cyngor a roddwyd ynglŷn â chyfuno'r gwaith cynllunio ar gyfer gwella a'r gwaith cynllunio ar gyfer llesiant, mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu dau amcan tymor hir, sef:

A: Rhoi cymorth i bobl atal tanau damweiniol mewn cartrefi ac aros yn ddiogel os bydd y rheini'n digwydd; a

B: Hwyluso gwasanaethau tân ac achub o safon uchel, sy'n ymatebol ac wedi'u hintegreiddio'n well fel bod gweithgareddau ataliol ac ymateb brys yn parhau i fod ar gael pryd a lle mae angen, a hynny'n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg.

9 Felly, mae'r Awdurdod yn gallu cyhoeddi, ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod, gyfres o amcanion sy'n gwasanaethu fel amcanion gwella blynyddol ac fel y camau y mae'r Awdurdod yn bwriadu eu cymryd yn y flwyddyn honno tuag at gyflawni ei amcanion llesiant tymor hir.

**GWYBODAETH**

10 Yn gynnar yn 2017, fe wnaeth Gweithgor y Cynllun Gwella lunio cyfres o dri amcan ar gyfer 2018-19 a chafodd y rheini wedyn eu cymeradwyo, i ddiben ymgynghori, gan yr Awdurdod llawn yn ei gyfarfod ar 20 Mawrth 2017.

11 Cafodd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar yr amcanion drafft hyn ei gynnal rhwng Mai 2017 (ar ôl etholiadau llywodraeth leol) a Gorffennaf 2017, a chafodd prif themâu'r ymatebion eu hystyried gan y Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 23 Hydref 2017.

12 Felly, mae'r Cynllun Gwella a Llesiant drafft ar gyfer 2018-19, sydd wedi'i atodi, yn ymgorffori'r tri amcan yr ymgynghorwyd yn eu cylch a'r datganiad esboniadol sy'n rhoi'r wybodaeth atodol angenrheidiol.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Goblygiad uniongyrchol os cytunir ar y camau tuag at amcanion llesiant tymor hir yr Awdurdod. |
| Cyllideb | Cytunwyd ar gyllideb ddrafft ar gyfer 2018/19 yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Rhagfyr 2017. |
| Cyfreithiol | Mae'n cynorthwyo i gydymffurfio â deddfwriaeth ym maes cynllunio ar gyfer llesiant a gwella. |
| Staffio | Nid oes effaith hysbys ar lefelau staffio |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau ond bydd effaith camau penodol yn cael eu hasesu ar wahân. |
| Risgiau | Mae'n lleihau'r risgiau y gellid peidio â chydymffurfio â'r gyfraith a methu â cyllidebu a chynllunio'n briodol. |